# Priodas Dan Orfod

## Deall Priodas Dan Orfod

**Priodas dan orfod yw un a gynhelir heb gydsyniad rhydd a llawn un o'r bobl neu'r ddau ohonynt.** Menywod yw'r mwyafrif o'r dioddefwyr, ond gall dynion fod yn ddioddefwyr hefyd. Gall ddigwydd i bobl o bob oed: mae'r Uned Priodasau dan Orfod wedi cefnogi dioddefwyr sydd mor ifanc â phum mlwydd oed. Mae priodasau dan orfod yn digwydd yn y wlad hon a thramor.

**Mae unrhyw un sy'n cael ei orfodi i briodi yn wynebu risg o niwed sylweddol.** Gall y rheini a gaiff eu bygwth â phriodas dan orfod gael eu cam-drin yn gorfforol, yn emosiynol, yn seicolegol, yn rhywiol ac yn ariannol; a gall y cyflawnwyr gynnwys rhieni, brodyr a chwiorydd, aelodau o'r teulu estynedig, neu hyd yn oed y gymuned ehangach. Weithiau mae gwrthod cydsynio â phriodas dan orfod wedi cael ei gysylltu â'r hyn a elwir yn drais ‘ar sail anrhydedd’, gan gynnwys llofruddiaeth. **Mae priodasau dan orfod hefyd yn golygu bod unigolion yn wynebu risg o ddioddef cam-drin domestig yng nghyd-destun y briodas.**

**Nid yw priodas dan orfod byth yn dderbyniol.** Mae'n drosedd yn y DU a gall cyflawnwyr gael eu carcharu am hyd at saith mlynedd. Mae'n torri hawliau dynol ac, os bydd yr achos yn cynnwys plentyn, mae'n achos o gam-drin plant.
Am ragor o wybodaeth, ewch i:
https://www.gov.uk/guidance/forced-marriage
https://twitter.com/FMUnit

Ni fydd llawer o bobl ifanc sy'n wynebu priodas dan orfod yn trafod eu pryderon, hyd yn oed â'u ffrindiau, am eu bod yn ofni y bydd eu teuluoedd yn dod i wybod am hynny, neu am eu bod yn ofni y byddant yn ‘cywilyddio’ eu teulu.

Mae hefyd yn bosibl na fydd rhai plant yn sylweddoli bod cymorth ar gael, gan gredu bod priodasau dan orfod yn ‘normal’. Mae'n bosibl na fydd eraill hyd yn oed yn ymwybodol o'r cynllun i'w gorfodi i briodi.

**Felly, mae'n bwysig bod pob aelod o'r staff yn ymgyfarwyddo â'r arwyddion sy'n dangos bod plentyn yn wynebu risg o gael ei orfodi i briodi, neu ei fod eisoes mewn priodas dan orfod.**

**Os gwelwch arwyddion ac/neu os clywch wybodaeth sy'n awgrymu bod plentyn yn wynebu risg o gael ei orfodi i briodi, neu ei fod eisoes mewn priodas dan orfod, mynegwch y pryderon hyn i'ch Person Diogelu Dynodedig ar unwaith.**

**Yn aml, dim ond un cyfle sydd i atal priodas dan orfod rhag digwydd.**

**Arwyddion y gall plentyn fod yn wynebu risg o gael ei orfodi i briodi, neu ei fod eisoes mewn priodas dan orfod.**

## Addysg

- absenoldeb neu'n diflannu'n sydyn;
- cais i fod yn absennol am gyfnod estynedig o amser a pheidio â dychwelyd o ymweliadau â gwlad wreiddiol y teulu;
- ofn am wyliau ysgol sydd ar ddod;
- brodyr/chwiorydd neu gefndryd/cyfnitherod yn cadw golwg ar y plentyn yn yr ysgol;
- ymddygiad, ymgysylltiad, perfformiad neu brydlondeb yn dirywio;
- cael ei dynnu o'r ysgol gan y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni;
- ddim yn cael ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol;
- dyweddïad yn cael ei gyhoeddi'n sydyn;
- cael ei atal rhag mynd ymlaen i addysg bellach/uwch.

## Iechyd

- ynysu;
- iselder;
- hunan-niweidio;
- ceisio lladd ei hun;
- FGM;
- beichiogrwydd cynnar/dieisiau
- anhwylder bwyta

## Hanes Teulu

- Anghydfodau teuluol;
- Rhedeg i ffwrdd o gartref;
- Cyfyngiadau afresymol e.e. ddim yn cael gadael y tŷ
- Brodyr/chwiorydd wedi cael eu gorfodi i briodi / wedi priodi'n ifanc / yn hunan-niweidio/laddiad.

Bawso
Providing specialist services for BME communities
PROFIADAU NIWEIDIOL MEWN PLENTYNDOD
ADVERSE CHILDHOOD EXPERIENCES
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email
Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Priodas Dan Orfod:

Atal, Ymyrryd yn Gynnar a Chymorth

Mae **Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar Ddiogleu plant rhag camdriniaeth sy'n ymwneud â chredoau diwylliannol a chrefyddol** yn tynnu sylw at ba mor ddifrifol yw'r math hwn o gamdriniaeth a'r bygythiadau posibl i ddiogelwch unigolion sy'n gwrthsefyll neu'n gwrthod priodi dan orfod.

**Mae ymateb yn y ffordd gywir y tro cyntaf y mynegir pryder yn hollbwysig.**

Yn ogystal â rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol o dan '**ddyletswydd i hysbysu**' ysgolion (Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel), gall ymarferwyr **geisio cyngor arbenigol:**

**Uned Priodasau Dan Orfod:** 0207 008 0151
fmu@fco.gov.uk

**Llinell Gymorth 24/7 Bawso:** 0800 7318 147
info@bawso.org.uk

**Karma Nirvana:** 0800 5999 247
info@karmanirvana.org.uk

## Atal, Ymyrryd yn Gynnar a Chymorth

Gall ymchwiliad gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddod i'r casgliad nad yw'r plentyn yn wynebu risg o gael ei orfodi i briodi, ac nad yw felly'n bodloni'r trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol. Mae'n bwysig bod yr unigolion hyn yn gallu cael gafael ar gymorth yn hawdd o hyd os byddant am ei gael, yn enwedig os byddant yn bryderus am y posibilrwydd o gael eu gorfodi i briodi o hyd.

- **Bawso** yw'r sefydliad arweiniol yng Nghymru sy'n cynnig cyngor a chymorth i unigolion a theuluoedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sydd wedi wynebu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Ymhlith meysydd eraill, maent yn arbenigo ar atal priodasau dan orfod a chefnogi dioddefwyr. Mae Bawso yn gwneud y canlynol:
    - cynnig cymorth a chyngor arbenigol i bobl ifanc sy'n bryderus am y posibilrwydd o gael eu gorfodi i briodi;
    - cefnogi pobl ifanc i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod;
    - helpu pobl ifanc gydag anghenion cymorth ehangach ac, os yw'n ddiogel gwneud hynny, cefnogi eu teuluoedd er mwyn helpu i herio'r credoau niweidiol sydd ganddynt a'u haddysgu am hawliau plant.

*Gallwch gysylltu â Bawso ar ei linell gymorth er mwyn holi am y cymorth sydd ar gael yn eich ardal leol.*

- Gall **Gwasanaethau Cam-drin Domestig Lleol** hefyd gynnig cymorth i blant a phobl ifanc – gallwch ddod o hyd i'ch gwasanaeth lleol ar wefan Cymorth i Ferched Cymru yma.

- Gall **grwpiau cymunedol** sy'n gweithio i addysgu, grymuso, datblygu arweinyddiaeth, a/neu godi ymwybyddiaeth helpu plant, pobl ifanc, menywod a theuluoedd i ddysgu am eu hawliau a ble i gael cymorth os bydd ei angen arnynt mewn amgylchedd nad yw'n stigmateiddio. Byddant yn aml yn cynnal prosiectau amrywiol. Mae Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST) wedi mapio gwasanaethau amrywiol i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sydd ar waith yng Nghymru: gweler yma.